# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 26 Chwefror 2025 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 26 Chwefror 2025 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 5 Mawrth 2025 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

---

**PWNC – Gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn llain o dir sydd wedi'i leoli ar gyrion Pen Y Banc, Borth y Gest**

---

**PENDERFYNIAD**

Caniatáu gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn llain o dir a leolir ym Mhen Y Banc ym Mhorth y Gest ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Gethin Jones (Uwch Syrfëwr Stadau) |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 26/02/2025 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | P. J. Row |

**Pwnc :**

Gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn llain o dir sydd wedi'i leoli ar gyrion Pen Y Banc, Borth y Gest.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Caniatáu gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn llain o dir a leolir ym Mhen Y Banc ym Mhorth y Gest ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Er mwyn galluogi'r Cyngor i drosglwyddo'r diddordeb rhydd-ddaliadol yn y llain o dir a ddangosir ag ymyl coch ar y cynllun atodedig sydd yn weddill ei anghenion i'r Cyngor, yn uniongyrchol i berchennog cyffiniol.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae'r perchennog cyfagos wedi gwneud cais i brynu'r darn o dir a ddangosir ag ymyl coch ar y cynllun. Mae'r tir yn weddill i ofynion gweithredol y Cyngor, ac ystyrir bod y tir o fwy o werth i'r darpar brynwr nag unrhyw brynwr arall, a fydd yn cael ei adlewyrchu yn y pris prynu.

Nid oes unrhyw fwriad i dderbyn llai na gwerth y farchnad am y tir.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**


Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid – "Nodaf nad oes bwriad i waredu'r eiddo am llai na phris y farchnad. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir."

Swyddog Monitro – "Nodaf fod y bwriad i waredu yn cyd fynd a gofynion Adran 123 o Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac nad oes gwrthwynebiad o du'r aelod lleol. Rwy'n fodlon felly gyda priodoldeb y bwriad."

Aelod/au Lleol (Cynghorydd Gwilym Jones) – Dim gwrthwynebiad.




Cynllun: Plan: **Rhan o Pen-Y-Banc, Borth-Y-Gest**

Graddfa / Scale @ A4: 1:1,250

© Hawlfraint y Goron a Hawliau Cronfa Ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 – Cyngor Gwynedd

Dyddiad: Date: 19/06/2024